Guide Dogs
Cymru




# Hanes Guide Dogs

## Adnodd Hanes (cymhariaeth) i blant 5 i 11 oed

I gael rhagor o wybodaeth am Guide Dogs neu i gael mwy o adnoddau dysgu, ewch i guidedogs.org.uk/learning

1931
2021
Guide Dogs
90 Years

Registered with FUNDRAISING REGULATOR

Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (209617) a'r Alban (SC038979). GD0466 07/21

# Croeso i'r adnodd Hanes Guide Dogs

**Mae'r pecyn hwn yn cynnwys cyfres o weithgareddau (y gallwch ddewis a dewis ohonynt) am hanes Guide Dogs yn y Deyrnas Unedig ac effaith yr Ail Ryfel Byd, a arweiniodd at ffurfio o elusennau cŵn tywys ledled y byd. Mae'r adnoddau'n addas ar gyfer pobl ifanc 5 i 11 oed. Ysgrifennwyd y cynnwys i fodloni gofynion y cwricwlwm Hanes ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hefyd yn cefnogi gwaith grŵp a thrafodaeth, creadigrwydd a datblygu sgiliau ysgrifennu, meddwl, cyfathrebu a TGCh.**

## Ynglŷn â Guide Dogs

**Er 1931, mae Guide Dogs wedi bod yno ar gyfer pobl sydd wedi colli eu golwg a'r rhai o'u cwmpas – bob dydd a phob cam o'r ffordd. Heddiw, rydym yn arwain y byd ym maes bridio a hyfforddi cŵn gwaith, gan greu partneriaethau unigryw sydd wedi'u cyfateb yn ofalus ac sy'n darparu cefnogaeth sy'n newid bywydau. Ond mae cymaint mwy i ni na hynny.**

Wrth i ni dyfu, felly hefyd ein gwasanaethau, a ddarperir gan bobl wych ac ymroddedig sy'n gweithio ochr yn ochr â'n cŵn gwych. Rydym yn creu partneriaethau gyda thywyswyr â golwg, a chysylltiadau ag ymgynghorwyr dibynadwy, a all gynnig cefnogaeth i bobl â nam ar eu golwg, eu teulu, a'u ffrindiau. Rydym yn ymroddedig i helpu plant a phobl ifanc sydd wedi colli eu golwg i ddysgu, tyfu a chael mynediad i'r un cyfleoedd â phawb arall. A phan fo angen gallwn bartneru pobl â chŵn cyfaill neu gydymaith a dod â phobl ynghyd i gefnogi ei gilydd a rhannu eu profiadau.

O hyfforddi cŵn bach i gynnig cyngor ar y dechnoleg hygyrch ddiweddaraf, o godi arian hanfodol i hybu ymchwil arloesol, mae ein staff, gwirfoddolwyr – a rhoddwyr – wedi rhoi'r help sydd ei angen ar filoedd i fyw'r bywyd y maent yn ei ddewis. I ddarganfod mwy am ein holl wasanaethau, ewch i

**guidedogs.org.uk**

1931
2021
Guide Dogs
90 Years

# Cysylltiadau i'r Cwricwlwm

## Lloegr

**CA1 –** Ymwybyddiaeth o'r gorffennol, geiriau ac ymadroddion cyffredin • Fframweithiau cronolegol • nodi tebygrwydd a gwahaniaethau • digwyddiadau hanesyddol arwyddocaol • ffyrdd o ddysgu am y gorffennol.

**CA2 –** gwybodaeth gronolegol • Rhyfel Byd 1af• cysylltiadau, cyferbyniadau a thueddiadau dros amser• defnydd o dermau hanesyddol• Newid, achos, tebygrwydd a gwahaniaeth, ac arwyddocâd• gwybodaeth o'r gorffennol yn dod o ystod o ffynonellau.

## Yr Alban

**Lefel gyntaf –** cymharu agweddau ar fywydau beunyddiol pobl yn y gorffennol â fy mywyd i.

**Ail lefel –** cymharu a chyferbynnu cymdeithas yn y gorffennol â fy un i – trafod pam roedd pobl a digwyddiadau o gyfnod penodol yn y gorffennol yn bwysig, gan eu gosod o fewn dilyniant hanesyddol.

## Gogledd Iwerddon Y byd o'n cwmpas

**CA1 –** Sut mae pobl a lleoedd wedi newid dros amser • gwahaniaethau rhwng fy mywyd a bywydau pobl yn y gorffennol• gwahanol fathau o gludiant nawr ac yn y gorffennol• sut mae nwyddau a gwasanaethau wedi newid dros amser.

**CA2 –** Archwilio: Rhesymau dros ac effeithiau digwyddiadau hanesyddol (Rhyfeloedd y Byd) • llefydd bryd hynny a nawr • dylanwadau o'r byd lleol ac ehangach • nodweddion unigryw bywyd yn y gorffennol • sut mae'r byd wedi newid dros amser.

## Cymru

**Cyfnod sylfaen –** Amser a phobl• amser a digwyddiadau gorffennol• geirfa i ddisgrifio gwahanol gyfnodau• pam roedd pobl yn gwneud pethau, pam y digwyddodd digwyddiadau a chanlyniadau• dehongli'r gorffennol trwy straeon• dylanwad digwyddiadau'r gorffennol.

**CA2 –** Defnyddio llinellau amser• disgrifio treigl amser• trafod ffyrdd o fyw ar wahanol adegau• digwyddiadau arwyddocaol, achos ac effaith• dehongli.

## Geiriau allweddol

Hanes• Rhyfel Byd 1af• nwy• Prydain• cyn-filwr• yna• nawr• modern• gorffennol• newidiadau• hanesyddol• hen• Ail Ryfel Byd• cymharu• llinell amser• cronolegol• diweddar• achos.

# Cyflwyniad

**Cyflwynwch eich dosbarth i Guide Dogs, gyda'r fideo hwn**
<u>**Ni yw Guide Dogs**</u>






# Gweithgaredd 1 – Ditectifs Hanes


**Gofynnwch i'r dosbarth cyfan eich helpu chi i ddidoli'r rhestr ganlynol o dermau yn ddwy golofn, sut rydyn ni'n disgrifio'r gorffennol a heddiw. Efallai y bydd y dosbarth eisiau ychwanegu eraill.**

- **Bryd Hynny**
- **Nawr**
- **Modern**
- **Hen**
- **Hanes**
- **Diweddar**
- **Presennol**
- **Y Gorffennol**
- **Hynafol**

Esboniwch i'r dosbarth bod angen iddyn nhw fod yn dditectifs ar gyfer y gweithgaredd nesaf hwn. Gan ddefnyddio taflen waith 1, edrychwch ar y lluniau, mae rhai o'r cyfnod diweddar ac mae rhai'n dangos y gorffennol ac eitemau a ddefnyddiwyd ym 1931, pan ddechreuodd Guide Dogs. Allwch chi eu labelu bryd hynny neu nawr?

**Gweithgaredd estyniad – Trafodwch fywyd ym 1931:**

- Sut mae rhai o'r eitemau wedi newid dros amser?
- Beth fyddai pobl yn ei wneud ar gyfer hwyl neu adloniant yn 1931 (llyfrau, comics, radio, gemau awyr agored) (dim gemau cyfrifiadur, YouTube, teledu) Beth sydd yr un peth?
- Pa mor hawdd fyddai hi wedi bod i deithio i'r ysgol, i'r gwaith neu ar wyliau?
- Sut beth fyddai bywyd i blentyn ym 1931? (Llai o fwyd oherwydd diweithdra uchel, llai o geir ar y ffordd, disgyblaeth lem mewn ysgolion, gorffen yr ysgol yn 14 oed).



---

# Gweithgaredd 2 – Hanes Guide Dogs

## (darllen ac ysgrifennu)

**Mewn parau neu fel grŵp bach. Defnyddiwch daflen waith 2 a'r fideo dewisol Llinell amser Guide Dogs. Gofynnwch i'r dosbarth ddarllen y darn am ddechreuad yr elusen Guide Dogs a llenwi'r bylchau gyda'r geiriau cywir.**

**Trafodaeth gweithgaredd estyniad -** Sut mae Guide Dogs wedi newid o 1931 i nawr? Beth sydd wedi aros yr un peth?
Dewisol - Gwyliwch **fideo Nell**.

# Gweithgaredd 3 - Llinell amser digwyddiadau
## (7+ oed mewn grwpiau bach, dan 7 fel dosbarth)

Gan ddefnyddio taflen waith 3, y cardiau Llinell Amser a'r **fideo llinell amser Guide Dogs dewisol**. Gofynnwch i'r dosbarth weithio mewn grwpiau, a allan nhw dorri pob disgrifiad allan a dod o hyd i'r pwynt cywir ar y llinell amser (trefn gronolegol). Adolygu atebion fel dosbarth.

**Atebion i athrawon** - 12,000 CC – Cŵn wedi'u dofi, 79 murlun Rhufeinig, 1200 – celf ganoloesol, 1780 – ysbyty “Les Quinze-Vigts”, 1847– Jakob Birrer, 1914-18 Rhyfel Byd 1, 1931 Guide Dogs UK, 1934 Cymdeithas Guide Dogs i'r Deillion, 1940 - Ail Ryfel Byd, 1956 Cynllun cŵn bach, 2013 My Sighted Guide, 2017 Plant a Phobl Ifanc.

Mewn grwpiau bach neu fel dosbarth, chwiliwch am y delweddau hanesyddol sy'n cefnogi'r llinell amser. Chwiliwch y termau “Roman guide dog” a “Medieval guide dog”. Trafodwch yr hyn y gallwn ei ddehongli a lle mae'r delweddau'n ymddangos (llyfrau, ar waliau, adfeilion).


---


# Gweithgaredd 4 – Creu poster neu Erthygl newyddion

Gofynnwch i'ch dosbarth ddychmygu eu bod yn byw ym 1931 a chreu map meddwl ar y bwrdd, sut fyddent yn creu poster neu erthygl newyddion i hysbysebu'r elusen newydd Guide Dogs. Pa wybodaeth / nodweddion fyddent yn eu cynnwys - pwy maen nhw'n eu helpu a sut?

Rhan dau -
Gofynnwch iddynt bob un ddylunio poster neu greu erthygl newyddion.



# Taflen Waith 1 – Ditectifs hanes

Dechreuodd yr elusen Guide Dogs hyfforddi cŵn i helpu pobl sydd oedd colli eu golwg ym 1931. Dychmygwch eich bod chi'n dditectif hanes; eich tasg yw cymharu'r delweddau a phenderfynu pa luniau sydd o'r cyfnod diweddar a pha luniau sy'n dangos y gorffennol. Ysgrifennwch y gair “bryd hynny” o dan luniau sy'n dangos bywyd yn y gorffennol (1931) ac ysgrifennwch y gair “nawr” ar gyfer lluniau sy'n dangos bywyd heddiw.

























# Taflen Waith 2 – Hanes cŵn tywys yn y Deyrnas Unedig

**Llenwch y bylchau gan ddefnyddio'r geiriau isod.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| fomio | cyrch | Mhrydain | hyfforddiant |
| ifanc | cŵn bach | golwg | bridiwr |
| cŵn | byd | gwirfoddolwr | hyfryd |
| rhyddid | gofalu | bwyd | magu |

Trwy'r oesoedd mae cŵn wedi gwasanaethu a chyfeillio dynion mewn ffyrdd dirifedi fel partneriaid gwaith, gwarchodwyr a chymdeithion.

Yn ystod y Rhyfel ____ Cyntaf, roedd llawer o filwyr a gweithwyr ffatri yn wynebu i ffrwydradau nwy mwstard neu sieliau, a achosodd iddynt golli eu _______.

Arweiniodd hyn at gychwyn yr ysgol cŵn tywys gyntaf yn yr Almaen ar ôl i feddyg a oedd yn _______am gleifion a anafwyd yn y rhyfel ddarganfod bod ei gi yn ymddwyn yn dda gydag un o'r dynion a oedd yn ddall. Ym 1931, darllenodd Muriel Crooke a Rosamund Bond stori am gŵn tywys a threfnu i gynnal cynllun prawf ym _______.

Dechreuwyd hyfforddi pedwar perchennog _____ tywys cyntaf Prydain ddiwedd haf 1931 yn Wallasey, Sir Gaer. Fe orffennont eu ___________ ym mis Hydref 1931.

Ym 1932, Chwe mis ar ôl cael ei gi tywys, ysgrifennodd Allen Caldwell, 'Mae Flash wedi chwyldroi fy mywyd awyr agored.' 'Nid yn unig y mae fy nghi wedi rhoi _________ ac annibyniaeth ogoneddus i mi, na fu'n bosibl ers dyddiau cyn y rhyfel, ond cwmnïaeth ________.'

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd bu'n rhaid i'r hyfforddiant symud i Leamington Spa oherwydd bod Wallasey wedi dioddef llawer o _______ ac nid oedd yn ddiogel. Roedd yn rhaid gwneud trefniadau i gŵn tywys gael eu caniatáu mewn llochesi ______ awyr ac roedd lwfans arbennig hefyd ar gyfer ______ cŵn grawnfwyd.

Wrth i Guide Dogs dyfu, roedd angen mwy o gŵn arnyn nhw, felly ym 1956 prynwyd ____ _____ a ddewiswyd yn arbennig a'u gosod gyda gwirfoddolwyr a oedd yn gofalu amdanyn nhw. Erbyn 1958 roedd bron i 60 o gŵn bach yn cael eu ________.

Heddiw, Guide Dogs UK yw _______ a hyfforddwr cŵn gwaith mwyaf y byd ac mae'n creu dros 600 o bartneriaethau cŵn tywys newydd y flwyddyn. Mae'r elusen hefyd yn cefnogi plant a phobl _____ sydd wedi colli eu golwg trwy nifer o wasanaethau gan gynnwys y gwasanaeth cŵn cyfaill a Customeyes, sy'n darparu llyfrau print bras pwrpasol. Mae ganddo wasanaethau eraill ar gyfer oedolion gan gynnwys My Sight Guide, sy'n paru unigolyn â cholled golwg â ______________, sy'n eu helpu i fynd o gwmpas yn ddiogel.

# Taflen Waith 3 -Llinell Amser Guide Dogs

Ar draws y canrifoedd bu llawer o ddelweddau a chyfeiriadau at gŵn yn helpu eu perchnogion dall. Yn yr 20fed Ganrif sefydlwyd canolfannau hyfforddi ffurfiol ledled y byd, gan gynnwys y Deyrnas Unedig, lle cafodd cŵn eu harneisio a'u defnyddio fel tywyswyr. Defnyddiwch y llinell amser i ddangos hanes cronolegol y berthynas rhwng bodau dynol a chŵn fel tywyswyr a sut mae Guide Dogs wedi newid dros amser.

**Cardiau llinell amser**

Torrwch y cardiau a'u rhoi yn y llinell amser

| | | |
|---|---|---|
| Y Rhyfel Byd Cyntaf sy'n ail-ysgogi diddordeb mewn cŵn tywys oherwydd bod cymaint o ddynion ifanc yn cael eu dallu. | Ymgais gyntaf i hyfforddi cŵn tywys yn ffurfiol yn ysbyty “Les Quinze-Vigts” ar gyfer y deillion ym Mharis. | Mae celf ganoloesol yn dangos delwedd o berson dall gyda ffon yn cael ei arwain gan gi. |
| Cynllun magu cŵn bach Guide Dogs yn cychwyn. | Mae'r Ail Ryfel Byd yn achosi i Guide Dogs symud i Leamington Spa. | Mae'r pedwar person cyntaf yn hyfforddi gyda'u cŵn tywys yn y DU. |
| Mae murlun o Herculaneum Rhufeinig (Pompeii) yn dangos person dall yn cael ei arwain gan gi. | Mae'r gwasanaeth My Sighted Guide yn cychwyn – helpu pobl sydd wedi colli eu golwg i fynd allan gyda gwirfoddolwr. | Mae Jakob Birrer yn ysgrifennu am gael ei dywys gan gi yr oedd e wedi'i hyfforddi'n arbennig. |
| Guide Dogs a Blind Children UK yn uno ac mae gwasanaethau Guide Dogs Plant a Phobl Ifanc yn cychwyn. | Mae cŵn yn dechrau cael eu dofi gan bobl am y tro cyntaf. | Defnyddir y teitl “The Dogs for the Blind Association” am y tro cyntaf. |

# Taflen Waith 3 - Llinell Amser Guide Dogs

**12,000BC**
(14,200 o flynyddoedd yn ôl)

**79OC**
(Canrif 1af OC)

**1200OC**
(13eg Ganrif OC)

**1780**
(18fed Ganrif OC)

**1847**
(19eg Ganrif OC)

**1914-18**
(20fed Ganrif OC)

**1931**
(20fed Ganrif OC)

**1934**
(20fed Ganrif OC)

**1940**
(20fed Ganrif OC)

**1956**
(20fed Ganrif OC)

**2013**
(21ain Ganrif OC)

**2017**
(21ain Ganrif OC)

Guide Dogs Cymru

Lliwiwch ni



Guide Dogs Cymru